# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 8 Ionawr 2014 i'w hateb ar 15 Ionawr 2014

R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)

## Gofyn i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

1. **Aled Roberts (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gyllideb Ymddiriedolaeth Ambiwlans Cymru ar gyfer 2014 cyn i unrhyw drefniadau newydd gael eu cyflwyno? OAQ(4)0381(HSS)**W**

2. **Julie James (Gorllewin Abertawe):** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl Abertawe yn 2014? OAQ(4)0368(HSS)

3. **Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddatblygu staff yn GIG Cymru. OAQ(4)0372(HSS)

4. **Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fynediad at therapi seicolegol ar gyfer pobl â phroblemau iechyd meddwl yng Nghymru? OAQr(4)0376(HSS)

5. **Christine Chapman (Cwm Cynon):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y driniaeth a'r cymorth i gleifion Dystonia yng Nghymru? OAQ(4)0369 (HSS)

6. **Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y ffigurau diweddaraf am farwolaethau a ryddhawyd gan Fwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr? OAQ(4)0375(HSS)

**7. Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddata marwolaethau y byrddau iechyd? OAQ(4)0366(HSS)

**8. Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu hyfforddiant i seicolegwyr? OAQ(4)0367(HSS)

**9. Alun Ffred Jones (Arfon):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y ddarpariaeth ddwyieithog gan feddygon teulu yn ardal Betsi Cadwaladr? OAQ(4)0380(HSS)**W**

**10. Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o effaith y polisi presgripsiynau am ddim ar ganlyniadau iechyd meddwl cleifion yng Nghymru? OAQ(4)0365(HSS)

**11. Russell George (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am recriwtio meddygon teulu yng Nghymru wledig? OAQ(4)0373(HSS)

**12. Mick Antoniw (Pontypridd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am faint o gyllid sydd ar gael ar gyfer ymchwil feddygol yng Nghymru? OAQ(4)0378(HSS)

**13. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei ymweliad diweddar ag Ysbyty Treforys gyda'r Gweinidog Cyllid cyn y Nadolig? OAQ(4)0370(HSS)

**14. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu gwasanaethau ysbytai yn ardal Bwrdd Iechyd Hywel Dda? OAQ(4)0382(HSS)**W**

**15. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y driniaeth sydd ar gael i gleifion sydd â thiwmorau niwroendocrin? OAQ(4)0379(HSS)

## Gofyn i'r Cwnsler Cyffredinol

**1. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi eu cael â Swyddogion y Gyfraith

ynghylch cymhwysedd deddfwriaethol y Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru) yn ystod y mis diwethaf? OAQ(4)054(CG)**W**

**2. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol ddatganiad ynglŷn â chyfeirio'r Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru) i'r Goruchaf Lys? OAQ(4)055(CG)**W**

## Gofyn i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi

**1. Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** Sut y mae Llywodraeth Cymru yn helpu pobl i gael gafael ar gyllid fforddiadwy? OAQ(4)0112(CTP)

**2. David Rees (Aberafan):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth ariannol Llywodraeth Cymru i Undebau Credyd? OAQ(4)0121(CTP)

**3. Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau ar gyfer y sector gwirfoddol yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)0109(CTP)

**4. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y meini prawf ar gyfer dethol y sefydliadau a'r prosiectau sydd wedi llwyddo i gael cyllid drwy'r Grant Cydraddoldeb a Chynhwysiant? OAQ(4)0124(HSS)

**5. William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynnydd Bil Cenedlaethau'r Dyfodol? OAQ(4)0119(CTP)

**6. Lindsay Whittle (Dwyrain De Cymru):** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i fynd i'r afael â thlodi plant yng Nghymru? OAQ(4)0108 (CTP)

**7. Julie James (Gorllewin Abertawe):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am Cymunedau yn Gyntaf? OAQ(4)0111(CTP)

**8. William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyfraniad y sector gwirfoddol a gwirfoddolwyr o ran mynd i'r afael ag effeithiau'r tywydd dros gyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd? OAQ(4)0117(CTP)

**9. Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf? OAQ(4)0115(CTP)**W**

**10. William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu pa asesiad y mae wedi'i wneud o'r strategaethau sydd eisoes yn bodoli i fynd i'r afael â thlodi gwledig yng Nghymru? OAQ(4)0118(CTP)

**11. Suzy Davies (Gorllewin De Cymru):** Pa arferion da i drechu tlodi a welodd y Dirprwy Weinidog Trechu Tlodi yn ystod ei ymweliad ag Abertawe yr wythnos diwethaf? OAQ(4)0116(CTP)

**12. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am glystyrau'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf? OAQ(4)010(CTP)

**13. Eluned Parrott (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i leihau tlodi trafnidiaeth ledled Cymru? OAQ(4)0122(CTP)

**14. Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effeithiau preifateiddio'r Post Brenhinol ar y gwasanaeth yng Nghymru? OAQ(4)0114(CTP)**W**

**15. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd):** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i wella cydlyniant cymunedol yng Nghymru? OAQ(4)0113(CTP)